

# CEISIADAU AM DDIWYGIADAU I'R MAP A'R DATGANIAD SWYDDOGOL

## DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981

### Nodiadau i'ch Cynorthwyo

#### Rhagarweiniad

Dim ond i'ch cynorthwyo y bwriedir y nodiadau hyn ac nid ydynt yn ddatganiad llawn o'r gyfraith. Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach neu eglurhad ar unrhyw bwynt, yna cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Uned Hawliau Tramwy.

1. Daeth rhan III Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i rym yn yr ardal hon ar 28ain Chwefror, 1983 ac mae'n caniatáu i Gyngor Gwynedd ddiweddarau ac adolygu'r Map a'r Datganiad Swyddogol ar gyfer Gwynedd yn barhaus trwy gyfrwng Gorchmynion Diwygio.
2. Gall unrhyw berson (neu grwpiau o bersonau) wneud cais am Orchymyn Diwygio mewn perthynas â llwybr march neu gilffordd sy'n agored i pob traffig/ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus. Bydd rhaid i chwi ddarparu tystiolaeth i ddangos fod eich cais yn disgyn i un neu fwy o'r categorïau canlynol:
  - a) Nad yw'r hawl tramwy a ddangosir ar y Map a Datganiad presennol yn bodoli yn gyfreithiol.
  - b) Fod hawl tramwy yn bodoli yn gyfreithiol ond na ddangosir ef ar y Map a Datganiad presennol.
  - c) Fod hawl tramwy wedi ei ddisgrifio mewn modd arbennig ar y Map a'r Datganiad e.e. llwybr cyhoeddus, ond y dylai gael disgrifiad gwahanol e.e. llwybr march.
3. Ni ddylid gwneud cais am orchymyn Diwygio os:
  - a) Y teimlwch y dylid cau hawl tramwy oherwydd nad yw mwyach yn ddefnyddiol ar gyfer y cyhoedd,  
  
neu
  - b) Y teimlwch y byddai'n fuddiol symud hawl tramwy o'i linell bresennol.

Gallwch gael cyngor ynglyn â'r Gorchmynion ar gyfer y math yma o newid gan yr Uned Hawliau Tramwy.

### **Gwneud Cais am Orchymyn Diwygio**

1. I wneud cais am Orchymyn Diwygio bydd angen i chi ddilyn y drefn a bennir yn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981. I'ch cynorthwyo chi mae gan y Cyngor set o ffurflenni cais y gellir eu cael o'r Uned Hawliau Tramwy neu ar y we. Gyda'ch cais, rhaid anfon map gyda graddfa o ddim llai na 1:10,000 (6" i 1 filltir), gorau oll os yn seiliedig ar fap Arolwg Ordnans yn dangos y sefyllfa bresennol a'r diwygiad awgrymedig.
2. Bydd angen darparu tystiolaeth i gefnogi eich cais, a gall hynny gynnwys unrhyw un o'r dogfennau neu gopiau o ddogfennau canlynol (lle bydd modd):

Dyfarndaliadau a Mapiau Cau Tiroedd, Dyfarndaliadau a Mapiau Degwm, Hen Fapiau Siroedd, Gweithredoedd Teitl, Gorchymynion Statudol, dyfarniadau Llys a datganiadau wedi eu llofnodi gan drigolion lleol a/neu berchnogion tir a effeithir gan eich cais. (Mae gan y Cyngor y ffurflenni y gellir eu defnyddio ar gyfer datganiad gan y fath dystion.)

### **Y drefn a ddefnyddir ar ôl derbyn eich cais**

1. Bydd Cyngor Gwynedd yn cydnabod yn ffurfiol derbyn eich cais.
2. Bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu ar eich cais mor fuan ag y bo'r modd ac yn ceisio gwneud hynny o fewn 12 mis o'i dderbyn. Wrth ymchwilio i'r cais bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Cyngor Cymuned/Tref a grwpiau/cymdeithasau eraill a bydd yn cysylltu ag unrhyw berchnogion tir yr effeithir arnynt er mwyn cael eu barn hwy a ceisio cael unrhyw dystiolaeth ganddynt sy'n berthnasol i'r cais. Caiff gyfweld unrhyw dystion a cawsoch ddatganiadau ganddynt. Mae'r Cyngor dan ddyletsydd i benderfynu ar eich cais ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a gall, os cred fod hynny'n briodol, geisio cael tystiolaeth ychwanegol bellach o unrhyw ffynhonnell briodol.
3. Ar ôl i'r Cyngor benderfynu ar eich cais, fe'ch hysbysir chi ac unrhyw bobl eraill neu breswylwyr y cyflwynwyd rhybudd o'r cais iddynt beth yw'r canlyniad.
  - a) Os penderfyna'r Cyngor wrthod eich cais a peidio gwneud unrhyw orchymyn bydd gennych 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r Rhybudd o Benderfyniad i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Cymru, a fydd yn penodi Arolygydd i ystyried yr âpel.
  - b) Os penderfyna'r Cyngor ganiatau eich cais, fe wneir Gorchymyn a fydd yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd lleol ac yn cael ei osod ar y safle. Cyflwynir copi o'r Gorchymyn hefyd i Berchnogion a Phreswylwyr y tir yr effeithir arno ynghyd a'r Cyngor Cymuned/Tref. Caniateir cyfnod o ddim llai na 42 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau.
  - c) Os na dderbynir y fath sylwadau a gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Gorchymyn. Os bydd sylwadau neu wrthwynebiadau neu os bydd angen newid y Gorchymyn mewn unrhyw ffodd yna cyfeirir y mater

i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Cymru a fydd yn penodi Arolygydd i ystyried y materion a'r tystiolaeth, ar ffurf sylwadau ysgrifennedig neu ymchwiliad cyhoeddus. Efallai y bydd wedyn yn cadrnau'r Gorchymyn gyda neu heb newidiadau.

- d) Pan gadarnheir gorchymyn, fe gyhoeddir rhybudd mewn papur newydd lleol a gosod rhybudd ar y safle ac fe hysbysir pob parti sydd â diddordeb. Gall unrhyw berson a dramgywyddir gan orchymyn ei herio yn yr uchel Lys o fewn 42 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad. Rhaid i'r fath gais fod ar y sail naill ai nad yw'r Gorchymyn o fewn pweau Deddf 1981 neu na chydymffurfiwyd â'r Ddeddf. Gall yr Uchel Lys ddileu Gorchymyn yn gyfangwbl neu'n rhannol os bodlonir ef fod y cais yn ddilys.
4. Os cadarnheir eich Gorchymyn Diwygio ac na fydd yr Uchel Lys wedi ei ddileu, daw wedyn yn rhan o'r Map Swyddogol a'r Datganiad ar gyfer yr ardal a chaiff ei ddarllen gyda hwy fel un ddogfen.